Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

# CYFARFOD PWYLLGOR GWAITH Y GANGEN

**Dyddiad:** Dydd Mercher 12 Chwefror 2025

**Amser:** 12:45-13:25

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 14 (y Senedd)

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Alun Davies AS
Delyth Jewell AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU**

   Rhianon Passmore AS
   Natasha Asghar AS
   Sam Rowlands AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-24-03 (**DOGFEN 1**)

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Gangen, lle'r oedd y Llywydd yn bresennol, holwyd – fel rhan o'r drafodaeth ar Genadaethau Arsylwyr Etholiadol – beth oedd y broses o ran senedd yn gwahodd Arsylwyr i'w hetholiadau, gan wybod nad oedd unrhyw genhadaeth o'r fath wedi arsylwi ar etholiadau'r Senedd hyd yma.

Roedd Ysgrifenyddiaeth y Gangen wedi ymchwilio i hyn ac ymateb y BIMR oedd mai dim ond ar Diriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron yr oedd yn arsylwi. Pe bai'r Senedd yn dymuno gwahodd tîm Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol, byddai angen gwneud hynny drwy sefydliadau eraill, fel Cyngres yr Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol neu Democracy Volunteers.

4. **<u>Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

<u>2024</u>

- *Gweminar BIMR "Beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag sefyll am swyddi etholedig, a sut y gellir eu goresgyn?"*
  *2 Rhagfyr*

  Roedd y Dirprwy Lywydd wedi gweld y weminar hon a oedd o ddiddordeb i waith Pwyllgor Senedd y Dyfodol.

- *Sesiwn friffio ar-lein gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Stephen Twigg.*
  *Adborth ar drafodaethau cynhwysiant LHDT+ yng Nghyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad a Chynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *11 Rhagfyr (12:00-13:00)*

  Yn dilyn y sesiwn friffio ar-lein gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, cynhaliodd BIMR gyfarfod i fwrw ymlaen â gwaith Rhwydwaith LHDT BIMR lle'r oedd Adam Price AS yn chwarae rhan flaenllaw. Roedd linc i bostiad ar wefan BIMR ynghylch y cyfarfod hwnnw ar gael yma.

2025

- *Gweminar Ranbarthol ar Gwotâu Rhywedd*
  *20 Ionawr*
  Linc i erthygl ar-lein a gyhoeddwyd ar ôl y digwyddiad

  Roedd linc i'r erthygl a gyhoeddwyd ar ôl y digwyddiad wedi'i rannu. Bu modd i Joyce Watson AS fynychu'r digwyddiad hwn a chyfrannu ato.

- *Ymweliad â'r Senedd gan Interniaid o Ganada*
  *21 Chwefror*

  Er nad oedd yn un o ymweliadau ffurfiol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, roedd yn bleser gan y Senedd groesawu'r ddirprwyaeth o interniaid o Ganada (mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru), a chymerodd nifer o Aelodau ran yn y digwyddiad. Yn eu plith roedd John Griffiths AS, Sam Rowlands AS a Heledd Fychan AS yn ogystal â Chadeirydd y Gangen.

- *Cyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *27 Ionawr*

  Bu modd i Natasha Asghar AS, Delyth Jewell AS a Rhianon Passmore AS fod yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r cyfarfod, a oedd yn cynnwys trafodaethau ar y weminar ddiweddar ar Gwotâu Rhywedd yn ogystal â chynlluniau ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (y byddai Aelodau'n ffilmio clipiau ar ei gyfer ac yn eu cyflwyno i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad). Cafwyd trafodaeth ddiddorol hefyd ar safbwyntiau gwahanol ynghylch pa lwyfannau cyfryngau cymdeithasol (X/Twitter yn benodol) yr oedd rhai Aelodau bellach yn penderfynu cefnu arnynt a dewis rhai eraill yn eu lle.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *73ain Seminar San Steffan*
  *10–14 Mawrth*

  Roedd paratoadau ar waith i James Evans AS gymryd rhan yn Seminar San Steffan y mis nesaf.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Caeredin, yr Alban*
  *16-19 Mawrth*

  Byddai Natasha Asghar AS, Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS yn cynrychioli'r Gangen yng Nghynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad eleni, dan ofal Senedd yr Alban.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *Ynysoedd Cayman*
  *26 Ebrill-2 Mai*

  Roedd Alun Davies AS wedi llwyddo i gael lle fel Arsylwr Byrdymor ar y genhadaeth hon. Deellid y byddai rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn Cenadaethau Arsylwyr Etholiadol yn yr hydref.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad*
  *Nassau, y Bahamas*
  *28 Ebrill - 4 Mai*

  Bu cais Sioned Williams AS yn llwyddiannus ac fe'i cyflwynwyd fel enwebai'r Gangen. Byddai Sioned Williams AS yn un o 30 o Seneddwyr Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fyddai'n cymryd rhan yn y gweithdy, a fyddai'n canolbwyntio ar "*Seneddwyr dros Rymuso Menywod yn Economaidd*".

- *Cynhadledd BIMR*
  *Caerdydd, Cymru*
  *17-19 Mehefin (DOGFEN 2)*

  Cafwyd trafodaeth ar y Gynhadledd BIMR a oedd ar ddod, a fyddai dan ofal y Senedd.

  Cytunwyd y byddai Alun Davies AS a Delyth Jewell AS (nad oedd y naill na'r llall wedi mynychu cynhadledd BIMR o'r blaen), ynghyd â'r Cadeirydd, yn gynrychiolwyr swyddogol i'r Senedd*.

*<u>Ôl-nodyn:</u> Wedi hynny, cysylltwyd â Sam Rowlands AS a chytunodd yntau i gynrychioli Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig fel cynrychiolydd yn y Gynhadledd.

Cadarnhawyd y byddai Aelodau eraill o Bwyllgor Gwaith y Gangen, yn ogystal â Llywyddion y Gangen, yn cymryd rhan mewn nifer o agweddau ar y Gynhadledd.

Cytunwyd y dylai *Senedd Ieuenctid Cymru; Iechyd Meddwl a Llesiant seneddwyr*; a *phwysigrwydd cefnogi seneddwyr LHDT+*, ymhlith y themâu dan ystyriaeth, gael eu cynnwys yn y rhaglen.

- *61ain Cynhadledd Ranbarthol Canada*
  *Dinas Québec*
  *20-23 Gorffennaf*

  Byddai Cynulliad Cenedlaethol Québec yn cynnal Cynhadledd Rhanbarth Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad eleni. Er mwyn cydnabod y berthynas gynhyrchiol rhwng ein seneddau, bydd y Senedd yn cael gwahoddiad i anfon un Aelod i'r gynhadledd fel arsylwr rhyngwladol. Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn hysbysebu'r cyfle ymhlith yr Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

- *68ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad / etholiadau Seneddwragedd y Gymanwlad*
  *Barbados*
  *6-13 Hydref*

  Roedd y Gangen yn disgwyl cael gwahoddiad swyddogol i Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad ym mis Mai, ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Gwaith yn Llundain. Byddai'r Aelod a fyddai'n ein cynrychiolydd yn y gynhadledd hon yn fenyw ond y gobaith hefyd oedd y byddai'r Gangen yn gallu darparu i Aelod ychwanegol gymryd rhan, fel Arsylwr.

- *Seneddau Ieuenctid y Gymanwlad*
  *2026/2028*

  Nododd y Cadeirydd fod ein Cangen wedi mynegi diddordeb yn y gorffennol mewn cynnal Senedd Ieuenctid y Gymanwlad - ac, yn wir, cododd y Llywydd hyn yn ein cyfarfod diwethaf, yn dilyn cyfarfod â

Senedd Seland Newydd i drafod ei phrofiad o gynnal y gynhadledd yn 2024.

Mae Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi cysylltu ers hynny i ofyn yn ffurfiol a fyddai'r Senedd am drafod yr opsiwn o gynnal y gynhadledd yn 2026.

Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau y byddai'n anodd i'r Senedd wneud yr ymrwymiad hwn yn ystod blwyddyn etholiad. Er hynny, roedd yr Aelodau'n awyddus i ailystyried y mater hwn ac asesu a allai Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad gynnal Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn y dyfodol, yn ystod y Seithfed Senedd.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

Papur i'w nodi:

- *67$^{ain}$ Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Adroddiad Sydney (DOGFEN 3)*

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith y Gangen:
Cyfarfodydd dros dro ym mis Ebrill, mis Mehefin a mis Gorffennaf